

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Cofnodion

Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 23 Awst 2021

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, TFA

Creighton Harvey, CFF

Bob Vaughan, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Edward Davies, CNC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Spencer Conlon, LIC

Andrew Chambers, LIC

Nichola Salter, CNC

Katy Simmons, CNC

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Kate Snow, United Utilities

Sarah Hetherington, CNC

Charlotte Priddy, AHDB

Shane Thomas, CFF

Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru

Adriana Kiss, LIC

Elizabeth Franks, Hafren Dyfrdwy

Emily Church, CLA

Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:

John Morgan, Maize Growers Association (Eitem 4)

Loree Jones, Dŵr Cymru

Haydn Evans, Cymdeithas y Pridd (Eitem 5)

Max Eckert, Cymdeithas y Pridd (Eitem 5)

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Matthew Walters, LIC

Fraser McAuley, CLA

Ruth Johnston, CNC

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.
2. Soniodd Zoe na fydd un o'r cyflwynwyr gwadd yn gallu ymuno â'r cyfarfod oherwydd salwch, a dymunodd wellhad buan i'r unigolyn hwn. Hefyd, nododd Zoe fod rhai ymddiheuriadau wedi dod i law ac aeth ati i groesawu'r rhai a oedd yn mynychu oherwydd absenoldeb eu cydweithwyr.
3. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, ei bod yn ffermwr organig. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant eraill mewn perthynas â'r eitemau ar yr Agenda.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant eisoes ond dylent ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda hefyd.

Eitem 2 Adolygu'r Cofnodion a'r Camau Gweithredu

4. Ar ôl i'r grŵp adolygu cofnodion y cyfarfod a chytuno'n ffurfiol arnynt, cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y cofnodion hynny'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Felly, mae'n bwysig i'r cofnodion fod yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Dywedodd Zoe fod sylwadau wedi dod i law gan Creighton Harvey, CFF, a Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, a bod y materion cysylltiedig wedi'u datrys.
6. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2021. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach ynghylch cofnodion cyfarfod mis Mehefin.
7. Rhannodd Bronwen Martin, CNC, ei sgrin fel bod y grŵp yn gallu gweld y camau nad ydynt wedi'u gweithredu. Mae'r diweddariadau canlynol yn berthnasol:

- PG 17 Ionawr: Bob a Marc i drafod ymhellach, cyn i Bob gynnal cyfarfod i ystyried tystiolaeth, polisi a rhaglenni priddoedd.

Dywedodd Bob fod hyn wedi dechrau. Nid yw'r contractwr yn gallu gwneud y gwaith ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon, felly rydym yn aros i gael y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Cytunodd Bob y gellir cau'r cam gweithredu hwn gan ei fod wedi'i ddatblygu cymaint ag sydd yn bosibl ar hyn o bryd. Bydd unrhyw ddiweddariadau dilynol yn cael eu darparu pan fyddant ar gael.

- PG Gorffennaf 03: CNC i gynorthwyo Kate Snow, United Utilities, i sefydlu prosiect i ddarparu canllawiau sylfaenol ac ymarferol ar sut i reoli storffeydd slyri.

Dywedodd Bob fod rhai trafodaethau wedi'u cynnal a bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud.

- PG Gorffennaf 09: Aelodau i awgrymu unrhyw leoliadau a manylion am ymweliadau safle wyneb yn wyneb posibl yn y dyfodol.

Ni dderbyniwyd unrhyw awgrymiadau cyn y cyfarfod. Mae'r mater hwn wedi'i gynnwys o dan Unrhyw Fusnes Arall ar yr agenda.

Eitem 3 Materion sy'n Codi

8. Dyma gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol, ynghyd ag adrodd am wybodaeth arwyddocaol, cyflwyno sylwadau neu drafod unrhyw bynciau perthnasol.
9. Dywedodd Zoe fod sawl pwnc wedi'i amlygu, ond gofynnodd i'r grŵp a oedd ganddynt unrhyw faterion eraill i'w trafod o dan yr eitem hon mewn perthynas â'r cofnodion neu'r papur diweddar. Ni chafwyd unrhyw sylwadau.
10. Cyflwynodd Bob Vaughan, CNC, rywfaint o wybodaeth gefndir am y gwaith Dosrannu Ffynhonnell Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA). Roedd y cyflwyniad yn cynnwys

trosolwg o'r gwaith gan gynnwys diweddariad ar waith modelu afonydd ACA gan ddefnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) sy'n Dosrannu Ffynhonnell (SAGIS).

Mae SAGIS yn offeryn modelu safonol a ddefnyddir gan Reoleiddwyr Amgylcheddol a'r Diwydiant Dŵr, ac mae'n dda iawn am amcangyfrif sut mae ffynonellau maetholion amrywiol yn cyfuno ar hyd afon i effeithio ar ansawdd dŵr ar gyfartaledd.

Cyflwynodd Bob drosolwg o'r cynllun i asesu pob ACA, ac aeth ati i grynhoi'r gwaith modelu sydd wedi'i wneud ar ACA Afon Gwy.

PG Awst 01: Bob Vaughan, CNC, i weld a oes modd rhannu copi o'r cyflwyniad gydag aelodau.

Trafododd y grŵp y data a'r ffigurau a ddangoswyd yn y cyflwyniad.

Awgrymodd Zoe a Bob y dylid darparu gwybodaeth fanylach mewn cyfarfod yn y dyfodol pan fydd mwy o ganlyniadau, gwybodaeth a diweddariadau ar gael.

Dywedodd Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru, fod y gwaith hwn yn ddiddorol. Mae gan Adriana ddiddordeb mawr yn yr elfen sy'n ymwneud â thanciau septig, a nododd fod gan Dŵr Cymru a Llywodraeth Cymru weithgor sy'n edrych ar effaith tanciau septig ar ansawdd dŵr, felly byddai'r wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Roedd Dennis Matheson, TFA, eisiau gwybod pa mor bell yn ôl y mae'r data/cofnodion hanesyddol yn mynd. Dywedodd Bob y byddai'n holi ei gydweithwyr am hyn.

PG Awst 02: Bob Vaughan, CNC, i gadarnhau pa mor bell yn ôl y mae'r data/cofnodion hanesyddol a ddefnyddir ar gyfer y gwaith Dosrannu Ffynhonnell Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn mynd.

Nododd Adriana Kiss, Llywodraeth Cymru fod yna ymrwymiad yn [Llywodraeth Cymru: Y Rhaglen Lywodraeth 2021-2026](#) i gryfhau'r gwaith o fonitro ansawdd dŵr ledled Cymru.

11. Cyflwynodd Katy Simmons, CNC, grynodedb o ganlyniad arolwg Cylchlythyr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Gofynnwyd i'r Aelodau bleidleisio dros eu hoff deitl ar gyfer y cyhoeddiad, ac arweiniodd hynny at ganlyniad cyfartal. Gofynnodd Katy a allai'r aelodau gytuno ar y teitl yn y cyfarfod hwn. Awgrymodd Bob mai braint y Cadeirydd yw bwrw'r bleidlais fwrw. Dywedodd Zoe ei bod yn hoffi'r teitl 'Ein Tir, Dŵr ac Aer' gan ei fod yn cwmpasu'r hyn y mae'r grŵp hwn yn ceisio ei wella. Cytunodd y grŵp ar y penderfyniad hwn. Dywedodd Katy y byddai'n hysbysu'r tîm cyfieithu am y teitl, aiddrafftio'r argraffiad cyntaf, diweddarau'r pennawd trwy gynnwys y teitl a rhannu'r ddogfen gyda'r grŵp i'w adolygu cyn ei gyhoeddi. Esboniodd Katy sut y bydd y cylchlythyr yn cael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu.
12. Cyflwynodd Marc Williams, CNC, ddiweddariad cryno am y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen gan gynnwys y rhai sydd wedi cytuno i gymryd rhan. Cadarnhaodd Marc nad yw cymryd rhan yn y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn golygu na all sefydliadau gyflwyno eu mesurau amgen arfaethedig eu hunain; hefyd, mae'n dderbyniol i sefydliadau gyflwyno eu cynigion unigol i Lywodraeth Cymru. Dywedodd Marc y bydd CNC yn hwyluso'r cyfarfod ac y bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei drefnu cyn bo hir.

Dyweddod Bob y bydd y grŵp bach hwn yn cynnig syniadau i'w cyflwyno i'r grŵp hwn fel bod pawb yn gallu eu hadolygu.

13. Nododd Zoe fod neges e-bost wedi'i hanfon at yr aelodau yn ymwneud ag Adolygiad y Senedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Awgrymodd Zoe na fydd y grŵp yn ymateb i'r adolygiad hwn ac mai mater i sefydliadau unigol yw ymateb i'r ymgynghoriad. Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod yr ymgynghoriad adolygu hwn yn gyfle i bawb. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau eraill.

Eitem 4 Cyflwyniad: 'Mae indrawn yn gnwd gwych'

14. Croesawyd John Morgan, o'r Maize Growers Association, i'r cyfarfod gan Zoe.
15. Esboniodd John ei gefndir a rôl y Maize Growers Association. Rhannodd John gyflwyniad gyda'r grŵp gan ddechrau trwy grynhoi hanes tyfu indrawn yn y DU.
16. Darparodd John drosolwg o'r heriau yn ymwneud â thyfu indrawn gan gynnwys cynaeafu hwyr a gormodedd o faetholion. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys ffotograffau yn dangos rhai enghreifftiau o 'ffermwyr yn gweithredu yn anghywir'. Nododd John fod yn rhaid i ffermwyr fynd ati i reoli'r caeau er mwyn lleihau'r risg o golli pridd, dŵr a maetholion.
17. Awgrymodd John rai syniadau i wella'r sefyllfa gan gynnwys dewis y cae cywir i dyfu indrawn a dewis y math cywir o indrawn i'w dyfu. Eglurodd John system sgorio'r Maize Growers Association a ddefnyddir i helpu ffermwyr i nodi'r math mwyaf addas o indrawn ar gyfer eu cae. Y gwir amdani yw nad yw rhai caeau'n briodol ar gyfer tyfu indrawn a bod angen i ffermwyr ystyried cnydau amgen.
18. Dywedodd John fod ffermwyr yn gallu lleihau'r risg posibl o lygredd o indrawn trwy ystyried y dyddiad hau tir yn rhychau yn ofalus (e.e. hau yn gynharach nag yn y gorffennol, felly ym mis Ebrill yn hytrach na mis Mai).
19. Trafododd John reoli maetholion a thyfu indrawn. Mae'r Maize Growers Association yn cynghori ffermwyr i sicrhau cydbwysedd rhwng cyflenwad maetholion ac anghenion maetholion ynghyd â chanllawiau yn RB209 i lunio cynllun rheoli maetholion.
20. Mae yna gyfleoedd i leihau colledion pridd a maetholion dros y gaeaf canlynol trwy ystyried teiars/traciau, rheoli sofl indrawn a hau cnwd arall o dan indrawn.
21. I gloi ei gyflwyniad, awgrymodd John y canlynol:
 - Peiriannau trwm mewn caeau gwlyb yw'r broblem, nid indrawn
 - Dylai ffermwyr geisio cynaeafu ym mis Medi
 - Dylid ystyried addasrwydd caeau yn ofalus ynghyd â'r math cywir o indrawn
 - Dylai ffermwyr fynd ati i hau mewn rhychau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl – canol mis Ebrill
 - Mae angen llunio cynllun maetholion cae unigol, yn seiliedig ar ddadansoddiad pridd ac yn caniatáu ar gyfer maetholion o wrtaith

- Peidiwch â gadael sofr indrawn moel dros y gaeaf – mae angen trin y tir, hau dan indrawn/tros-hau, dilyn cnwd
- Siarter Indrawn y Maize Growers Association – ymweld â ffermydd i greu cynllun rheoli indrawn sy'n benodol i'r fferm

22. Cafwyd diweddariad cryno gan Sarah Jones a Loree Jones (Rheolwr Prosiect Dŵr Cymru) ar Brosiect Hau Dan Indrawn Dŵr Cymru. Nododd Sarah fod Dŵr Cymru wedi cynnal prosiect hau dan indrawn mewn rhai ardaloedd yn Sir Benfro (dalgylchoedd dŵr yfed) ac mae'n rhoi cymhorthdal i ffermwyr fesul erw i hau glaswellt o dan eu cynydau indrawn.

Dywedodd Loree fod y contractwr wedi cyflwyno cynnig i Dŵr Cymru. I ddechrau, cafodd tua 100 erw eu hau dan indrawn mewn tair fferm yn eu dalgylchoedd dŵr yfed. Derbyniwyd dros 20 o ymholiadau gan ffermwyr eraill hefyd, ond roeddent wedi'u lleoli y tu allan i'r dalgylchoedd dŵr yfed. Parhaodd rhai o'r ffermwyr hyn i hau dan indrawn heb y cymhorthdal sy'n cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y dŵr yn yr ardaloedd hynny. Dywedodd Loree eu bod yn gweithio gyda'r contractwr a Cyswllt Ffermio i drefnu digwyddiad agored ar un o'r safleoedd ym mis Rhagfyr/Ionawr a fydd yn cynnwys gwahoddiad agored i bob tyfwr indrawn yng ngorllewin Cymru drafod y prosiect gyda'r ffermwr lletyol.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r contractwr Field Options wedi bod yn gweithio gyda Cyswllt Ffermio i gynnal treialon gan ddefnyddio cymysgeddau gwahanol o hadau er mwyn asesu eu haddasrwydd ar gyfer tyfu o dan indrawn yn ogystal ag asesu addasrwydd defnyddwyr terfynol gwahanol.

Wrth edrych tua'r dyfodol, dywedodd Loree fod y bartneriaeth rhwng Dŵr Cymru, Field Options a Cyswllt Ffermio yn gobeithio cynnal y prosiect eto ac efallai y byddant yn edrych ar ddalgylchoedd dŵr yfed eraill a allai elwa o'r prosiect.

23. Diolchodd Zoe i John, Loree a Sarah a gofynnodd a oedd unrhyw gwestiynau.

24. Dywedodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, fod arferion gwael yn arwain at lygredd a chostau i gwmnïau dŵr. Hefyd, dywedodd fod y defnydd o blastig yn ymddangos yn wael a gofynnodd i John a ddylid gwneud arferion gorau yn orfodol. Dywedodd John ei fod yn credu bod y rhan fwyaf o'r arferion yn orfodol eisoes, er enghraifft, mae Rheolau Ffermio ar gyfer Dŵr yn Lloegr yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr gymryd rhagofalon i leihau erydiad pridd yn ogystal ag ymgymryd â chynlluniau rheoli maetholion ar gyfer pob cae, bob blwyddyn.

25. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod ganddi ddi-ddordeb gwybod beth sydd wedi'i gynnwys yn siarter y Maize Growers Association. Dywedodd John fod y siarter yn cynnwys tair prif elfen; ymweliad â fferm i roi sgôr i gaeau unigol ar gyfer addasrwydd i dyfu indrawn, trafod y cynllun rheoli maetholion gyda'r ffermwr ar gyfer y cae hwnnw a rhoi sgôr ar gyfer priodoldeb y cynllun, ac yn olaf trafod rheoli'r caeau hynny ar ôl eu cynaeafu.

Gofynnodd Sarah a fu unrhyw ddatblygiad o systemau bras-droi'r tir ar gyfer indrawn. Dywedodd John fod indrawn yn agored i gywasgu ac nad yw'n dda am weithio ei ffordd drwy briddoedd cywasgedig. Mae tystiolaeth ar gael sy'n awgrymu bod aredig cyn hau

indrawn yn caniatáu iddo archwilio ei botensial i ymwreiddio. Dywedodd John fod yna ddiddordeb cynyddol mewn dewisiadau bras-droi'r tir ac maent yn cynnal treialon ar gyfer dewisiadau troi mewn lleiniau eleni. Yr her yw sicrhau bod strwythur y pridd yn iawn.

26. Gofynnodd Creighton Harvey, CFF, am y ganran o indrawn sy'n cael ei dyfu fel porthiant a'r ganran o indrawn sy'n cael ei dyfu ar gyfer planhigion treulio anaerobig yng Nghymru. Dywedodd John ei fod yn gyfarwydd â'r sefyllfa gydag indrawn yn y Gorllewin, ond nad yw'n gwybod y ffigurau. Nododd Creighton fod y broses o dyfu cnydau wedi'i chynnwys ym Mhennod 4 y [Cod Ymarfer Amaethyddol Da \(CoGAP\)](#), sy'n cynnwys canllawiau ar gyfer ffermwyr. Dywedodd nad yw cyfran fawr o'r arferion gorau a ddangoswyd yn y cyflwyniad yn cael eu gweld ar lawr gwlad yn ardaloedd y Gorllewin gan fod llawer iawn o waith cynaeafu'n cael ei wneud ym mis Hydref ac mae nifer fawr o gaeau'n cael eu gadael yn foel dros y gaeaf. Dywedodd John fod y negeseuon wedi bod yn debyg dros yr 20 mlynedd diwethaf, ond eto mae llawer iawn o ffermwyr yn methu dilyn arferion gorau o hyd. Dywedodd John na ddylai unrhyw un o'r pethau a drafodwyd heddiw gostio mwy o arian i ffermwyr, ond bod y cyfan yn ymwneud ag amseru gwell a rheolaeth well. Awgrymodd John y dylai pobl annog ffermwyr i fynychu treialon fel y digwyddiad agored a drafodwyd gan Loree a Sarah fel y gallant weld y systemau drostynt eu hunain. Dywedodd Creighton ei bod yn ymddangos bod cynnydd yn araf yn y maes hwn ac ymddengys mai ychydig iawn o sylw sy'n cael ei roi i'r canllawiau presennol. Oni bai bod cynnydd yn cael ei wneud, efallai y byddai'n fwy priodol cynnwys Pennod 4 o CoGAP mewn deddfwriaeth a'i ategu mewn rhyw ffordd i wneud y rheoliad yn fwy effeithiol. Dywedodd John ei fod yn cytuno'n llwyr.
27. Dywedodd Shane Thomas, CFF, ei fod wedi sylwi bod adroddiad Cymdeithas y Pridd 2015 yn cyfeirio at gynnwys lleiniau clustogi i ategu hau dan indrawn a gofynnodd a oes unrhyw bosibilrwydd o gynnwys hyn mewn prosiect Dŵr Cymru yn y dyfodol. Gofynnodd Sarah i Shane ddarparu rhagor o wybodaeth am hyn er mwyn ystyried y mater.

PG Awst 03: Shane Thomas, CFF, i ddarparu rhagor o wybodaeth am leiniau clustogi i Sarah Jones, Dŵr Cymru.

28. Gofynnodd Ed Davies, CNC, am y ffactorau sy'n cael eu defnyddio i lunio sgoriau'r caeau a ddefnyddir yn y Siarter Indrawn. Dywedodd John eu bod yn ystyried pethau fel dyddiad hau mewn rhychau, llethr, wynebweidd, glawiad, math o bridd, agosrwydd at nodweddion amgylcheddol neu eiddo. Gofynnodd Ed a yw hau dan indrawn yn opsiwn bob amser ar gyfer caeau y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer tyfu indrawn, neu a fydd yn anymarferol mewn rhai amgylchiadau. Dywedodd John ei fod yn opsiwn pan fydd ffermwyr yn bwriadu tyfu indrawn y flwyddyn ganlynol (indrawn parhaus).
29. Gofynnodd Charlotte Priddy, AHDB, pam y byddech yn dewis indrawn yn hytrach na miscanthus ar gyfer bio-ynni, gan na fyddai miscanthus yn achosi problemau dŵr ffo. O safbwynt treuliad bio-nwy, dywedodd John fod indrawn yn cynhyrchu mwy o nwy nag unrhyw gnwd arall, felly mae'n ddewis masnachol.
30. Diolchodd Zoe i John am ymuno â'r cyfarfod ac am ysgogi trafodaeth mor ddiddorol. Cytunodd John i rannu ei gyflwyniad gyda'r grŵp.

PG Awst 04: Bronwen Martin, CNC, i ddosbarthu cyflwyniad John.

Eitem 5 Cyflwyniad Cymdeithas y Pridd: Cynhyrchu Organig

31. Croesawodd Zoe Haydn Evans a Max Eckert, o Gymdeithas y Pridd, i'r cyfarfod.
32. Rhoddodd Haydn gyflwyniad i Ardystiad Cymdeithas y Pridd, amlinellodd safonau cynhyrchu organig a'r broses drosi ac ardystio, pwysleisiodd manteision ffermio organig, a thrafododd y farchnad organig.
33. Mae bwyd a ffermio organig wedi'u diffinio gan y gyfraith. Er mwyn gwerthu cynnyrch fel cynnyrch organig, rhaid i fusnesau feddu ar dystysgrif cofrestru gan gorff ardystio organig cymeradwy fel Tystysgrif Cymdeithas y Pridd. Mae rhestr o egwyddorion a rheolau a elwir yn safonau organig yn arwain ffermwyr a thyfwyr organig, gyda'r nod o ddarparu'r lefelau uchaf o les anifeiliaid, diogelu iechyd pobl ac anifeiliaid, a diogelu'r amgylchedd. Mae tîm Ardystio Cymdeithas y Pridd wrth law i helpu i arwain ffermwyr drwy'r broses drosi ac ardystio.
34. Mae cynhyrchu organig yn gwahardd defnyddio gwrteithiau a phlalladdwyr synthetig. Mae'n seiliedig ar faethu planhigion trwy ecosystem y pridd a gweithio gyda systemau naturiol a chylchdroi ar ffermydd. Mae cylchdroi cnydau yn seiliedig ar amrywiaeth a maeth, ac nid ar liniaru clefydau yn unig. Dylid defnyddio hadau organig. Dylid defnyddio tail gwyrdd, cnydau gorchudd, mathau o gompost a thail ar gyfer ffrwythlondeb. Mae da byw yn fanteisiol, ond nid yn hanfodol.
35. Mae dwysedd stocio yn ddigon isel i atal defnyddio mwy na 170kg o nitrogen yr hectar bob blwyddyn (gan gynnwys taenu tail /slyri). Hyrwyddo iechyd da byw mewn systemau awyr agored di-straen gyda safonau lles uchel. Mynediad i bori pryd bynnag y bydd yr amodau'n caniatáu, ac mae gan anifeiliaid le i grwydro. Deiet sy'n llawn glaswellt a bwyd organig. Defnyddir cyffuriau i drin salwch yn unig. Dim defnydd rheolaidd o wrthfotigau ar gyfer proffylacsis.
36. Mae'r broses ardystio organig yn cynnwys:
- Gwasanaeth cyn ymgeisio – arweiniad a chymorth di-dâl gan y tîm ardystio ar sut y gall ardystio weithio ar eich fferm.
 - Cais:
 - Mae tir yn dechrau trosi pan fyddwn yn derbyn eich ffurflen gais wedi'i chwblhau
 - Arolygiad cais
 - Cwblhau eich cyfnod trosi gyda chymorth parhaus gan ein tîm ardystio (2 flynedd fel arfer)
 - Ardystiad organig: gallwch farchnata a gwerthu eich cynnyrch fel cynnyrch organig gan ddefnyddio symbol organig Cymdeithas y Pridd
37. Cyflwynodd Haydn drosolwg o'r broses trosi tir sy'n cael ei gwblhau fel arfer dros gyfnod o 24 mis.
38. Nododd Haydn fod llawer o gyhoeddiadau ar gael sy'n cofnodi manteision ffermio organig, ac aeth ati i ddarparu trosolwg o rai ohonynt.

39. Dywedodd Haydn fod tua 5% o'r tir yng Nghymru yn dir organig. I ddechrau, darparwyd cymorth trwy Glastir Organig, ond nid yw trosi i organig wedi parhau trwy'r cynllun hwn. Dim ond y rhai sydd eisoes wedi'u sefydlu'n organig sy'n derbyn cymorth bellach.
40. Diolchodd Zoe i Haydn am y cyflwyniad diddorol, a dechreuodd y sesiwn gwestiynau trwy ofyn a yw canran y ffermio organig yn Lloegr a'r Alban yn uwch na chanran Cymru (5%). Dywedodd Max mai Defra sy'n cyhoeddi'r ffigurau hyn, a'u bod yn debygol o fod yn uwch yn Lloegr.
41. Nododd Ed Davies, CNC, fod Haydn wedi dweud bod llawer o bobl yn dangos diddordeb mewn troi at ffermio organig. Ar y sail hon, gofynnodd a yw canran y ffermydd organig yng Nghymru yn cynyddu. Dywedodd Max fod nifer y ceisiadau wedi aros yn ei unfan yn ddiweddar. Roedd y farchnad wedi gwella yn araf ar ôl y chwalfa economaidd, ond mae twf y farchnad organig wedi gwella'n raddol ers 2011. Bu cynnydd hwyr yn nifer yr ymgeiswyr, felly mae mwy o dir yn cael ei drosi ledled y DU.
42. Gofynnodd John Morgan am y potensial i gwtogi'r cyfnod trosi. Dywedodd Haydn ei bod yn bosibl cwtogi'r cyfnod trosi ar yr amod bod rhywun yn berchen ar y tir a bod ganddo/ganddi gofnod o'r mewnbynnau blaenorol i'r tir. Dywedodd Max fod y broses yn ymwneud â chofnodion rheoli hanesyddol a dangos hynny i'r tîm ardystio. Gallai fod gostyngiad o hyd at 12 mis yn yr amser trosi, ond byddai angen cymeradwyaeth Defra ar gyfer hyn. Hefyd, byddai'n rhaid i chi berthyn i gynllun swyddogol lle mae rhywun wedi cadarnhau eich bod yn bodloni'r egwyddorion organig cynt.
43. Gofynnodd Creighton Harvey, CFF, beth yw'r rhwystrau i droi at ffermio organig ar gyfer ffermio llaeth a chynhyrchu indrawn. Dywedodd Haydn mai'r prif rwystr yw bod angen i chi brofi sut y gallwch wneud i'r fferm weithio heb fewnbynnau synthetig. Fel arfer, ar gyfer fferm sydd â llawer o stoc, bydd 170kg/ha yn creu problem a bydd angen lleihau lefel y stoc. Yn ail, os ydych wedi arfer defnyddio gwrteithiau synthetig, mae'n rhaid i chi feddwl am rywbeth gwahanol, sy'n cymryd amser yn aml, gan nad yw pob cae'r un fath. Dywedodd Haydn fod ambell i ffermwr organig yn tyfu indrawn. Dywedodd Haydn ei fod wedi rhoi cynnig ar dyfu indrawn unwaith ond ei fod wedi methu yn gyfan gwbl gan na allai ddefnyddio unrhyw un o'r mewnbynnau synthetig fel chwistrell cyn neu ar ôl ymddangosiad ar gyfer rheoli chwyn.
- Dywedodd Creighton ei fod yn gyfarwydd â lleoliad Haydn a gofynnodd a allai wneud sylw am sut mae indrawn yn cael ei dyfu yn ei ardal. Dywedodd Haydn fod ei gymydog yn tyfu indrawn a'i fod yn ffermwr o'r radd flaenaf gyda system fanwl a hynod effeithiol. Fodd bynnag, dywedodd Haydn ei fod yn adnabod ffermwr arall sy'n tyfu indrawn sydd â system lai cywir. Nododd ei bod yn anodd croesi'r ffordd gyfagos oherwydd dŵr ffo ar y ffordd. Awgrymodd John mai'r catalydd rhwng y ddau yw'r ffermwr.
44. Gofynnodd Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru, sut mae cyfnodau trosi yn cymharu â thir sydd wedi'i ardystio'n dir organig yng ngwledydd yr UE (o le mae swm sylweddol o fwyd organig yn dal i gael ei fewnforio mae'n debyg). Hefyd, gofynnodd Nick a yw pris llaeth organig da yn ffactor pwysig. Dywedodd Haydn fod rhaid sicrhau bod modd cyfiawnhau'r gost o drosi i egwyddorion organig ar sail y farchnad. Dywedodd Haydn ei fod wedi ymwneud â mudiad organig yr UE ac nad oes unrhyw wahaniaeth ar hyn o bryd. Dywedodd Max fod y safonau yn gallu bod yn gymharol ragnodol ledled yr UE yn gyffredinol, a bod y rheoliadau yn cael eu gweithredu'n

gymharol gyfartal ledled yr aelod-wladwriaethau eraill. Ym mis Ionawr 2022, gall pethau fynd yn fwy cymhleth wrth i'r UE gyflwyno rheoliadau organig newydd.

45. Gofynnodd Sarah Jones, Dŵr Cymru, am y prif resymau y mae pobl wedi'u nodi am droi at ffermio organig. Dywedodd Haydn fod llawer o'r rhesymau yn berthnasol i unigolion penodol, gan gynnwys peidio â bod eisiau defnyddio plaladdwyr neu awydd i ffermio mewn ffordd benodol trwy ystyried bod eu gwrychoedd, pridd etc yn un cyfanwaith.
46. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod y broses o newid unrhyw system yn gofyn am lawer o gymorth. Cytunodd Haydn â sylw Sarah a dywedodd ei bod yn hollbwysig derbyn cymorth, yn enwedig yn y cyfnod cynnar.

Eitem 6 Cynnydd SBRI

47. Cyflwynodd Marc Williams, CNC, ddiweddariad cryno o'r cynnydd sydd wedi'i wneud ar y cais SBRI. Anfonwyd y daenlen at yr aelodau i'w hadolygu. Gofynnodd Marc i'r grŵp a oedd gan unrhyw un unrhyw sylwadau neu adborth i lywio'r gwaith o gyflwyno'r Ffurflen Mynegi Diddordeb. Dywedodd Zoe fod ganddi ddiddordeb penodol mewn helpu i sicrhau bod ein ffermwyr ifanc yn cael eu haddysgu'n dda ac yn gynnar. Dywedodd Marc fod yna ddau brif gynnig; y cyntaf oedd sicrhau bod technoleg a data monitro yn ddealladwy ac yn ymarferol i ffermwyr, a'r ail oedd y pecyn addysg i ffermwyr. Bydd busnesau bach yn ceisio meddwl am syniadau i ddatrys yr heriau hyn. Gofynnodd Marc a yw'r aelodau yn ymwybodol o ddulliau yn ymwneud â'r rhain sydd eisoes ar waith ac yn cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill.
48. Dywedodd Sarah Hetherington, CNC, fod arloesi'n cymryd llawer o amser, ac awgrymodd fod angen sefydlu menter ar wahân yn edrych ar sut y gallwn wahanu maetholion a gofynion cynydau er mwyn manteisio'n llawn ar ein slyri a'n tail. Gofynnodd Marc i Sarah a oes awgrym bod angen cynnwys yr her newydd hon. Cytunodd Sarah y dylid cynnwys hyn hefyd.
49. Dywedodd Zoe fod angen i'r grŵp wneud penderfyniad er mwyn gallu cyflwyno'r cais Mynegi Diddordeb, a gofynnodd i'r grŵp a oedd gan unrhyw un arall unrhyw sylwadau eraill. Dywedodd Bob y gellid ymgorffori awgrym Sarah fel rhan o'r her a'i hysbysebu yn y rhaglen fel bod modd i bobl gyflwyno atebion. Dywedodd Marc y gellir cyflwyno mwy nag un ffurflen Mynegi Diddordeb gyda heriau gwahanol.

PG Awst 05: Marc Williams, CNC, i gwblhau'r Ffurflen Mynegi Diddordeb SBRI ddrafft i dderbyn sylwadau gan y grŵp.

Eitem 7 Trafodaeth ar Ddogfen Ddrafft Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tenantir

50. Dywedodd Zoe fod y ddogfen ddrafft Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tenantir wedi'i hanfon at yr aelodau ychydig cyn y cyfarfod ym mis Gorffennaf. Gofynnwyd i'r Aelodau adolygu'r ddogfen ddrafft Cwestiynau Cyffredin a rhoi adborth i Lywodraeth Cymru. Dyma gyfle i'r grŵp drafod y ddogfen ddrafft yn gryno a gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol.

51. Dywedodd Spencer Conlon, Llywodraeth Cymru, fod Matthew Waters yn coladu'r ymatebion, ond nododd nad ydynt wedi derbyn cymaint o ymatebion ag yr oeddent wedi gobeithio. Mae modd cyflwyno sylwadau o hyd gan fod hon yn ddogfen bwysig iawn. Dywedodd Spencer fod y ddogfen yn ddogfen fyw y gellir ei diweddarau, ond gofynnodd i'r aelodau ddarparu adborth erbyn diwedd yr wythnos.

PG Awst 06: Aelodau i ddarparu adborth ar y ddogfen ddrafft Cwestiynau Cyffredin ar gyfer Tenantir erbyn 27 Awst 2021.

52. Dywedodd Nick Fenwick, Undeb Amaethwyr Cymru, fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi ymateb i Lywodraeth Cymru a CNC. Mae'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin yn amlygu mwy o broblemau nag atebion. Dywedodd Nick ei bod yn achos pryder gan ei bod fel pe bai'n cyfeirio pobl at gyngor cyfreithiol drud neu gyngor trydydd parti yn hytrach na chymryd cyfrifoldeb am sefyllfa y mae'r Is-grŵp hwn wedi rhybuddio amdani ers tua thair blynedd.

Dywedodd Nick fod pwyslais mawr ar gael CNC i wneud penderfyniadau a darparu cyngor ar faterion cyfreithiol cymharol gymhleth yn ymwneud â Deddf 86 ar gyfer tenantiaethau a allai arwain at gyflafareddu a phrosesau cyfreithiol hir. Gofynnodd Nick i CNC a yw'n hyderus bod yr arbenigedd cyfreithiol gan y corff i wneud penderfyniadau ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol o dan Adran 30. Hefyd, gofynnodd Nick a yw CNC yn hyderus y bydd yn derbyn yr adnoddau i weithredu'r rheolau a sicrhau bod ganddo'r arbenigedd i wneud y penderfyniadau hynny. Dywedodd Bob Vaughan, CNC, fod CNC yn dal i drafod gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r adnoddau ac wedi rhoi syniad am yr hyn sy'n ofynnol yn ein barn ni i fod yn hyfyw ar gyfer y rheoliadau. Trafododd Bob a Nichola Salter, CNC, fod gan CNC ei adran gyfreithiol ei hun.

53. Dywedodd Dennis Matheson, TFA, ei fod yn ategu popeth a ddywedodd Nick Fenwick ynglŷn â'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r rhan fwyaf o'r problemau ond nid yw'n trafod unrhyw un o'r atebion, gan nad oes atebion i'r sefyllfa ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, bydd rhai tenantiaid yn gorfod torri'r gyfraith ryw ffordd neu'i gilydd os nad oes eithriadau neu os yw'r achos yn destun cyflafareddu. Dywedodd Dennis fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ailedrych ar hyn. Os nad yw'n gwneud hynny, dyma fydd dechrau'r diwedd i'r system landlordiaid-tenantiaid yng Nghymru.

54. Gofynnodd Nick a oes unrhyw wybodaeth am y gyllideb a fydd ar gael i CNC. Dywedodd Bob nad oes unrhyw amserlen glir ar gael, ond bod cyfarfodydd wedi'u trefnu i gynnal y trafodaethau hyn.

55. Bu Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru yn myfyrio ar yr anawsterau mewn perthynas â ffermwyr tenant a'r rheoliadau, a gofynnodd a yw'r grŵp yn credu ei fod wedi gwneud digon i dynnu sylw Llywodraeth Cymru ac efallai Gweinidogion perthnasol at y mater hwn. Dywedodd Chris ei bod yn ymddangos na fydd ddogfen Cwestiynau Cyffredin sydd ond yn tynnu sylw at y problemau yn mynd i lwyddo, a bod angen ailfeddwl yn ofalus am sut rydym yn ymdopi â'r broblem yn ymwneud â ffermwyr tenant. Gofynnodd Zoe i Chris beth mae'n awgrymu y dylai'r grŵp ei wneud. Dywedodd Chris efallai y gellid ysgrifennu llythyr at y Gweinidog perthnasol i dynnu sylw at y broblem.

56. Gofynnodd Zoe i'r grŵp a oedd yn credu bod hyn yn beth priodol i'w wneud. Dywedodd Nick y byddai'n cymeradwyo'r hyn y mae Chris wedi'i ddweud, a nododd fod y grŵp hwn wedi cynnal trafodaethau a gofnodwyd am y pryderon hyn sydd bellach wedi'u hamlygu yn y Cwestiynau Cyffredin. Dywedodd Nick nad yw'n optimistaidd iawn am

dderbyn ymateb, ond y byddai'n gwbl briodol i ychwanegu at y pryderon a fynegwyd eisoes. Dywedodd Bob fod y grŵp wedi ysgrifennu at y Gweinidog i drafod pynciau penodol yn y gorffennol. Dywedodd Dennis ei fod wedi ysgrifennu tua hanner dwsin o llythyrau'n uniongyrchol at y Gweinidog ac wedi cael dwsinau o gyfarfodydd gyda swyddogion, ac mai'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin hon sydd wedi deillio ohonynt.

57. Dywedodd Creighton fod problem wirioneddol yma a dylid datrys y broblem yn ymwneud â ffermwyr tenant i'w gwneud yn haws i bawb gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.
58. Dywedodd Spencer nad mater iddo ef yw cynghori'r grŵp a ddylai ysgrifennu at y Gweinidog ai peidio. Cyfeiriodd Spencer at bwynt a godwyd yn gynharach ynglŷn â'r gofynion storio sydd wedi bod ar waith ers 30 mlynedd. Cytunodd Nick fod yna rai elfennau nad ydynt wedi newid ond bod rhai newidiadau yn newydd. Mae'r newidiadau hyn yn enfawr. Dywedodd Nick fod y cyfan yn ymwneud â lefel y gwaith yn hytrach na natur yr hyn y bydd yn rhaid i CNC ei wneud.
59. Dywedodd Chris ei bod yn bwysig hysbysu'r Gweinidog yn glir am natur y problemau sy'n codi, ac amlinellu catalog o'r gwahanol broblemau mewn ffordd gryno.
60. I gloi, dywedodd Zoe y byddai'r grŵp yn ysgrifennu llythyr at y Gweinidog yn nodi pryderon y grŵp cyfan ac nid pryderon unigolion.

PG Awst 07: Bob a Zoe i ddrafftio llythyr ar ran y grŵp at y Gweinidog yn ymwneud â'r ddogfen Cwestiynau Cyffredin a materion yn ymwneud â thenantiaethau.

Er bod gofynion storio wedi newid, dywedodd Spencer fod gofynion storio wedi bod ar waith ers 30 mlynedd. Os yw ffermwyr tenant wedi llwyddo i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn ers 30 mlynedd, mewn llawer o achosion mae'n rhaid eu bod wedi llwyddo i lunio dulliau o gytuno ar sut i fodloni'r gofynion rhwng tenantiaid a landlordiaid. Nid yw'r angen i denantiaid fodloni gofynion storio yn egwyddor newydd gan fod tenantiaid wedi gorfod bodloni gofynion storio erioed.

61. Os oes llythyr am gael ei ddrafftio, dywedodd Spencer y byddai'n dda pe bai'n tynnu sylw at rai enghreifftiau bywyd go iawn, gan fod gofynion storio wedi bod ar waith ers 30 mlynedd. Cytunodd Zoe ac awgrymodd y gallai aelodau helpu i ddarparu rhai enghreifftiau bywyd go iawn.

PG Awst 08: Aelodau i ddarparu enghreifftiau o senarios bywyd go iawn i'w cynnwys yn y llythyr at y Gweinidog.

Eitem 8 Unrhyw Fater Arall

62. Soniodd Dennis Matheson, TFA, am safbwynt TFA Cymru ar dyfu indrawn ar gyfer biodreulwyr. Nid yw'n hoffi hyn achos yn sgil y cymhorthdal, mae rhenti uchel iawn yn cael eu talu ar gaeau i dyfu indrawn ar gyfer biodreulwyr gan ystumio'r farchnad rhentwyr yn ei chyfanrwydd.
63. Dywedodd Zoe fod cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 20 Medi 2021 a gofynnodd i'r grŵp a fyddai'n gyfforddus gydag ymweliad safle/fferm yn ddibynnol ar sefyllfa Covid.

PG Awst 09: Bronwen Martin, CNC, i greu pleidlais i aelodau bleidleisio ar ymweliad safle/fferm

Diwedd y cyfarfod